



At:
Rheolwyr Gyfarwyddwyr Consortia Addysg Rhanbarthol
Cyfarwyddwyr Addysg

Cc:
Cydgysylltwyr 14-19 Rhanbarthol
Penaethiaid Ysgolion Uwchradd
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi

22 Mai 2017

Annwyl Gydweithwyr

Adroddiadau ar Berfformiad Ysgolion - TGAU (9-1)

Fel y mae'n bosib y gwyddoch, mae'r Adran Addysg wedi dechrau cyflwyno system graddio ar ffurf rhifau ar gyfer TGAU yn hytrach na'r system a welwyd cyn hyn ar ffurf graddau A*-G. Bydd y cymwysterau hyn yn cael eu graddio 9-1, gyda 9 yn cynrychioli'r sgôr uchaf o ran cyrhaeddiad. Yng Nghymru, bydd TGAU 9-1 yn ymddangos yn rhan o'r wybodaeth am berfformiad pan gaiff ei gymeradwyo neu ei ddynodi i'w gyflwyno. Disgwylir y bydd hyn ond yn effeithio Cymru mewn pynciau lle mae'r cohort yn isel lle nad oes manyleb ar wahân ar gyfer Cymru, neu lle bydd disgyblion mewn ysgolion annibynnol yn dewis dilyn pwnc TGAU gyda bwrdd arall, ac nid CBAC.

Mae'r pwyntiau perfformiad ar gyfer TGAU 9-1 bellach wedi'u priodoli ac i'w gweld isod:

Strwythur Graddio	Pwyntiau
9	58
8	55
7	52
6	48
5	44
4	40
3	32
2	24
1	16
U	0

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn fras, byddai'r un gyfradd o fyfyrwyr yn cael graddau 1, 4 a 7 ac uwch ag a fyddai wedi cael graddau G, C ac A ac uwch o dan y system A*-G. Mae'r tabl isod yn dangos y graddau 9-1 a'r graddau A*-G:

Y strwythur graddio A*-G (Cymru)	Y strwythur graddio 9-1 (Lloegr)
A*	9
A	8
	7
B	6
C	5
	4
D	3
E	2
F	1
G	
U	U

Bydd y cymwysterau hyn yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgolion Lefel 2 cynhwysol, Capió 9 a Bagloriaeth Cymru. I gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd y cymwysterau hyn yn cyfrif o ran y mesurau perfformiad, gweler [QiW](#), y gronfa ddata o gymwysterau cymeradwy yng Nghymru, gan ddefnyddio'r cod unigryw (QAN) ar gyfer cymwysterau.

Polisi FEWBES ynghylch TGAU 9-1:

Bydd disgwyl i ddisgyblion o Loegr sydd â TGAU 9-1 mewn Saesneg neu Fathemateg ar ddechrau Blwyddyn 11 gwblhau hefyd fanyleb TGAU newydd Cymru mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg a Mathemateg Rhifedd. Fodd bynnag, os byddant yn cyrraedd ar ryw adeg arall yn ystod Blwyddyn 11, gallant gael eu dosbarthu'n ddisgyblion FEWBES a'u cadw ar wahân at ddibenion mesurau perfformiad.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y llythyr hwn yna gallwch anfon e-bost atom ims@wales.gsi.gov.uk.

Yn gywir



Steve Vincent
Dirprwy Gyfarwyddwr
Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion